Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tre-gŵyr
# Heol Cecil
# Tre-gŵyr
# Abertawe
# SA4 3DL

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Crynodeb

Mae arweinwyr wedi llwyddo i sefydlu ethos eithriadol o gefnogol a gofalgar ble caiff disgyblion eu meithrin mewn amgylchedd diogel a hapus. Mae newidiadau diweddar i arweinyddiaeth a rheolaeth wedi cael eu rheoli'n effeithiol i gynnal rhediad llyfn yr ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol, sy'n paratoi disgyblion yn dda iawn i fod yn ddinasyddion gweithredol ac ymgymryd â chyfrifoldebau bywyd oedolyn. Mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cryf, cadarnhaol a chynhyrchiol gyda'u disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol ac yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o wersi. Mae safon ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda. Mae safonau lles yn eithriadol o dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Bydd Ysgol Tre-gŵyr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth, a mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd Ysgol Tre-gŵyr i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer orau a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynnydd a wna pob disgybl mewn gwersi

A2 Gwella safonau disgyblion mewn Cymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella systemau atebolrwydd ar bob lefel arweinyddiaeth

A4 Sicrhau bod hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n briodol ar ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion yn eu gwersi

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Da |
|---|---|

At ei gilydd, ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn mewn dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, mewn ystod o feysydd y cwricwlwm ar draws y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r cynnydd a wna disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mor gryf.

Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn cymhwyso eu gwybodaeth yn effeithiol i gyd-destunau newydd. Mewn rhai o'r gwersi hyn, mae disgyblion yn dangos eu bod yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn eithriadol o dda, ac mae hyn yn eu helpu i wneud cysylltiadau rhwng testunau a phynciau yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi ar draws y cwricwlwm, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mewn rhai achosion, y rheswm am hyn yw'r ffaith fod ganddynt ddealltwriaeth wan o wybodaeth flaenorol. Mewn achosion eraill, maent yn dibynnu'n ormodol ar yr athro neu'n gweld y gwaith yn rhy hawdd ac felly nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol ar gyfer eu hoedran a'u gallu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ar yr athro ac ar ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn egluro eu syniadau'n glir ac yn defnyddio terminoleg bynciol yn dda, er enghraifft wrth holi am fersiynau eraill o draddodiadau sy'n berthnasol ar y Shabbat, sef dydd o orffwys i Iddewon. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae atebion disgyblion yn rhy fyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau y maent yn eu darllen a gallant ddethol gwybodaeth yn llwyddiannus ohonynt. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi technegau awduron yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn casglu ystyr o destun yn gymwys. Mae rhai disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a rhesymu yn effeithiol iawn i ddadansoddi ac arfarnu'n fanwl y testunau y maent wedi eu darllen.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig strwythuredig o destunau yn hyderus. Maent yn deall pam maent yn ysgrifennu ac yn datblygu eu gallu i addasu iaith yn unol â'r gynulleidfa yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw disgyblion bob amser yn cymryd digon o ofal â'u gwaith ysgrifenedig. Er enghraifft, gwnânt ormod o gamgymeriadau â sillafu, atalnodi a gramadeg. Nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am brawfddarllen ac ailddrafftio eu gwaith. Mewn rhai achosion, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar ddeunyddiau cymorth a ddarperir gan yr athro.

Mewn gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol yn unol â'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, maent yn dethol data perthnasol o ystod o ddeunydd dilys yn llwyddiannus i gynllunio taith i barc antur. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol mewn cyfrifiadau yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gymwys mewn ystod addas o bynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn mesur yn gywir, yn tynnu llun graffiau a thablau yn dda i ddangos data ac yn llunio siartiau â thra-chywiredd addas pan gânt gyfarwyddyd i wneud hynny. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n gallu dewis graffiau priodol neu ddewis technegau eraill heb arweiniad.

Mae disgyblion yn defnyddio TGCh mewn lleiafrif o bynciau at ystod gyfyng o ddibenion yn gymwys. Gwnânt hynny yn bennaf i greu a chyfleu gwybodaeth gan ddefnyddio offer prosesu geiriau a chyflwyno a chwilio am ragor o wybodaeth ar y rhyngrwyd i gefnogi'r tasgau hyn. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ddefnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm i ddod o hyd i wybodaeth neu syniadau, a'u datblygu, neu i ddadansoddi gwybodaeth a defnyddio modelau, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau mewn Cymraeg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion wedi cael eu cofrestru ar gyfer cwrs TGAU Cymraeg ail iaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wedi llwyddo ar lefel 2. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion yn unig a fu'n astudio'r cwrs llawn yn 2016. Cyfyngedig yw defnydd disgyblion y tu allan i wersi Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 4, bu tuedd ar i fyny o welliant bron ym mhob dangosydd yn y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion wedi bod yn gyson uwchlaw'r canolrif yn y pedair blynedd ddiwethaf, ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llawer o ddangosyddion wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg ac yn y dangosydd sgôr pwyntiau wedi'i chapio, wedi gwella'n gyson. Mae'r perfformiad hwn wedi bod ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ac wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg yn y pedair blynedd ddiwethaf. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda iawn yn nangosydd lefel 1, ac yn nangosydd lefel 2 a'r dangosyddion sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Mae eu perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod yn amrywiol dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n cyd-fynd â'r cyfartaledd yn genedlaethol yn 2016.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A neu gyfwerth mewn TGAU wedi gwella'n dda o sylfaen isel yn 2014 ac mae uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol erbyn hyn. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn ar y cyfan.

Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn y chweched dosbarth mewn tua hanner y dangosyddion yn 2016 ac mae'n cyd-fynd â'r cyfartaledd mewn ysgolion yn genedlaethol ym mhob dangosydd o leiaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn.

| 2: Lles ac agweddau at ddysgu | Rhagorol |
|---|---|

Mae safonau lles yn eithriadol o dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac fe gânt eu cefnogi'n dda yng nghymuned yr ysgol, er enghraifft trwy'r ethos gofalgar yn y cyfleusterau 'Gofal' a 'Quest'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus eu bod yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ffyrdd iach o fyw. Adlewyrchir hyn yn y bwyd y maent yn ei fwyta a'r diodydd y maent yn eu hyfed yn yr ysgol a'r gweithgareddau corfforol y maent yn ymgymryd â nhw. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n fawr hefyd ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau eraill, er enghraifft mewn adeiladu tîm neu'r Gymanfa Ganu. Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon yn uchel ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a pharchus at staff, eu cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae safon ymddygiad yn eithriadol o dda. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol ac maent yn ddysgwyr brwdfrydig. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau dysgu, gan ddal ati i ganolbwyntio trwy gydol y wers.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac maent uwchlaw'r rheiny ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Maent uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae cyfraddau absenoldebau parhaus wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf ac maent islaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

| 3: Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
|---|---|

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda.

Bron ym mhob un o'r gwersi, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cryf, cadarnhaol a chynhyrchiol gyda'u disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodelau iaith effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac maent yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn trefnu'r man dysgu a'r adnoddau yn fedrus i gefnogi dysgu.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi strwythuredig sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio technegau difyr ac adnoddau sydd wedi'u llunio'n dda i gymell eu disgyblion. Mae'r gwersi hyn yn symud ar gyflymdra effeithiol ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae'r dysgu'n symud yn araf, ac nid yw athrawon yn addasu gwaith yn unol ag anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon da, er enghraifft i gynnwys tasgau neu weithgareddau digon heriol sy'n meithrin eu medrau'n ddigon da i'w galluogi i weithio

heb ormod o gymorth gan yr athro. O ganlyniad, nid yw disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau clir ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau. Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol i fonitro eu cynnydd a datblygu medrau meddwl yn briodol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau'n ddigon da i adolygu dealltwriaeth disgyblion a datblygu ac ymestyn eu syniadau.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar calonogol mewn gwersi sy'n nodi'r hyn y mae disgyblion wedi ei wneud yn dda. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig adeiladol ar ddarnau allweddol o waith i helpu disgyblion i ddeall beth wnaethon nhw'n dda, a beth yn benodol y mae angen iddyn nhw ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylwadau athrawon mewn llyfrau yn rhy gadarnhaol. Mewn rhai pynciau, ceir dull hynod effeithiol o roi adborth, ac fe gaiff disgyblion sylwadau buddiol o ansawdd da, sy'n rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella'u gwaith. Mae llawer o athrawon yn nodi camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith disgyblion yn rheolaidd, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at gywirdeb gwaith disgyblion. Mae llawer o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w sylwadau ac yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol. Fodd bynnag, mae ansawdd yr asesu yn amrywiol o fewn, ac ar draws, adrannau.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n dda ar brofiadau blaenorol disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, ceir ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sy'n darparu'n dda ar gyfer anghenion a diddordebau disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o lwybrau buddiol mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau lleol eraill yn y chweched dosbarth.

Ceir cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ymweliadau addysgol yn y DU a thramor. Mae gan lawer ohonynt gysylltiadau cryf â'r cwricwlwm craidd ac maent yn gwella dysgu disgyblion yn fuddiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Defnyddir cynorthwywyr cymorth yn briodol i gynorthwyo ag addysgu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr wrth gefnogi cynnydd disgyblion penodol. Ceir strategaethau cynlluniedig ar gyfer y disgyblion hynny sydd â llythrennedd a rhifedd gwan i ddatblygu eu medrau. Mae'r strategaethau hyn yn cysylltu'n gryf â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth gwricwlaidd briodol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant a hunaniaeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigonol ar hyder disgyblion i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Yn ychwanegol, nid yw lleiafrif ohonynt wedi cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU mewn Cymraeg ail iaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer medrau TGAU sylfaenol mewn lleiafrif o bynciau heblaw TG. Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio'n bennaf ar greu a chyfleu gwybodaeth, ac nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gallu disgyblion i ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu, wedi'u datblygu'n ddigonol.

| 4: Gofal, cymorth ac arweiniad | Rhagorol |
|---|---|

At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn Ysgol Tre-gŵyr yn rhagorol ac yn paratoi disgyblion yn dda iawn ar gyfer cyfrifoldebau bywyd oedolyn.

Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac mae'n defnyddio gwybodaeth asesu yn dda i fonitro cynnydd disgyblion a thargedu cymorth ychwanegol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth ystyrlon i rieni am gryfderau eu plentyn, a'i dargedau ar gyfer gwella. Er enghraifft, maent yn darparu dadansoddiad o berfformiad unigol yn y profion rhifedd a llythrennedd cenedlaethol a'r camau y mae angen eu cymryd i wella'r medrau hyn. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr holl sylwadau'n cael eu gwneud yn bersonol i'r plentyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig ar gyfer rheoli presenoldeb disgyblion. Mae staff o ganolfan 'Gofal' yn gweithio'n agos gydag athrawon i reoli ailintegreiddio disgyblion sydd wedi bod yn absennol yn effeithiol. Yn ychwanegol, maent yn darparu cymorth dyddiol ar gyfer disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion yn seiliedig ar broblemau.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth arbenigol gan yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig, sydd naill ai'n derbyn rhan o'u haddysg, neu'u haddysg gyfan, ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion hyn yn elwa ar gymorth sy'n gweddu'n dda iawn i'w hanghenion ar y cyfan. Mae staff wedi sefydlu perthnasoedd rhagorol gyda'r disgyblion hyn. Maent yn eu hadnabod yn dda ac mae hyn yn cynorthwyo'r disgyblion yn fawr.

Mae staff o'r ddarpariaeth arbenigol yn rhoi cyngor gwerthfawr i gydweithwyr eraill yn yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn elwa ar hyfforddiant mewn 'beth yw awtistiaeth' a 'hanesion cadarnhaol am bobl sydd ag awtistiaeth'. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth ddatblygedig o'r cyflwr a sut i uniaethu â'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o ymyriadau i gynorthwyo disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi ychwanegol gwerthfawr mewn rhifedd, llythrennedd a rhaglen i ddatblygu defnydd cymdeithasol disgyblion o iaith.

Mae'r broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol. Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth arbenigol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i staff am gryfderau disgyblion a'r agweddau ar ddysgu y maent yn cael anhawster â nhw. Maent yn cynnwys strategaethau defnyddiol i gynorthwyo disgyblion penodol. Er enghraifft, caiff staff eu cynghori am 'sbardunau straen' a sut i'w hosgoi. Nid yw cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol bob amser yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl wybodaeth sydd ar gael am ddisgyblion ac maent yn aml yn rhy gyffredinol. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol yn cynnwys disgyblion na rhieni mewn gosod neu adolygu targedau.

Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol ar draws yr ysgol yn nodwedd ragorol. Cyflwynir themâu pynciol trwy raglen gynhwysfawr o ddiwrnodau ffocws teilwredig, gwasanaethau a gwersi, sy'n

cael eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ystod eang o asiantaethau allanol. Mae llawer o bynciau'n darparu profiadau gwerth chweil hefyd sy'n cyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion cymdeithasol a moesol.

Caiff gwaith y cyngor ysgol effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn arwain gweithgareddau diddorol a chreadigol i wella iechyd a lles eu cyfoedion, fel yr 'her camau' ysgol gyfan a chreu'r 'llwybr rhwystrau' ar dir yr ysgol. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth wedi cael hyfforddiant i ddarparu cyfleoedd buddiol i gynorthwyo iechyd meddwl disgyblion trwy'r cyfleuster 'galw i mewn' wythnosol. Mae disgyblion hŷn wedi creu'r Clwb Ymbarél' llwyddiannus, sef grŵp cymorth buddiol ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau chwaraeon a diwylliannol allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau buddiol â chyn-ddisgyblion, er enghraifft chwaraewyr rygbi rhyngwladol ac artistiaid o fri sydd, yn eu tro, yn cefnogi dysgu ac yn ysbrydoli yn ystod diwrnodau ffocws ac mewn gwersi. Yn ychwanegol, ceir clybiau diddordeb arbennig amrywiol a gwerthfawr fel y Clwb Gwnïo a'r 'Clwb Tawel'.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth eithriadol o dda i ddatblygu dinasyddiaeth weithredol ymhlith ei disgyblion. Mae cysylltiadau â grwpiau cymunedol yn eithriadol o gryf. Mae band a cherddorfa'r ysgol yn perfformio'n rheolaidd mewn digwyddiadau lleol ac maent wedi elwa ar gael perfformiadau wedi'u harwain gan Syr Karl Jenkins. Mae disgyblion wedi codi symiau sylweddol o arian ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio, er enghraifft, i ariannu ffynhonnau yn Affrica a chefnogi elusennau lleol a chenedlaethol eraill.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth yn hynod effeithiol ac yn herio'r achosion prin iawn o anoddefgarwch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

| **5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Hyd yn hyn, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith sylweddol ar y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 4. Mae wedi sefydlu systemau olrhain hynod effeithiol i nodi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni mewn pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4, a gall ymateb yn gyflym i dangyflawniad gydag ystod o ymyriadau i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n dda iawn ar ddiwedd Blwyddyn 11. Yn ychwanegol, mae wedi sefydlu ethos eithriadol o gefnogol a gofalgar yn llwyddiannus, ac mae hyn yn darparu amgylchedd diogel a hapus. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar bob disgybl yn cyflawni ei botensial. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu a'i deall yn dda gan bawb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi rheoli'r newidiadau mewn arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae'r pennaeth newydd yn rhoi ychydig o brosesau newydd ar waith yn ofalus ac yn synhwyrol, i gynnal rhediad llyfn yr ysgol. Mae'n ennill dealltwriaeth ddefnyddiol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i ganolbwyntio cyfeiriad strategol yr ysgol o'r

newydd yn well i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd ganddo. Mae arweinwyr ar bob lefel yn mireinio eu defnydd o ddata i osod blaenoriaethau strategol yn fwy manwl gywir.

Mae'r ysgol wrthi'n ailstrwythuro rolau a chyfrifoldebau'r uwch dîm arweinyddiaeth ar hyn o bryd fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr ysgol yn y dyfodol. Mae arweinwyr canol yn deall eu rolau'n dda, ac mae llawer ohonynt yn cefnogi a datblygu eu timau'n effeithiol. Maent yn cymryd rôl ragweithiol yn gynyddol mewn arwain gwelliant yr ysgol mewn meysydd allweddol fel addysgu a dysgu.

Er bod cyfarfodydd rheolaidd yn helpu cyfathrebu effeithiol ar draws yr ysgol, ni chaiff gweithredoedd a chyfrifoldebau eu nodi'n ddigon clir, ac nid eir i'r afael â nhw mewn cyfarfodydd dilynol yn ddigonol. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn addas, ac yn gyffredinol, mae'r amcanion a osodir yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol. Pan fydd arweinwyr yn nodi tanberfformio, ceir prosesau buddiol i gynorthwyo staff i wella'u harfer. Fodd bynnag, nid yw rhai targedau a meini prawf llwyddiant yn ddigon craff i fesur cynnydd unigolyn yn gywir. Felly, at ei gilydd, mae'r systemau hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr ddwyn staff i gyfrif a sicrhau bod cynnydd cyson yn cael ei wneud tuag at gyflawni blaenoriaethau'r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad disgyblion. Defnyddiant eu hystod eang o brofiadau yn effeithiol i herio a chefnogi'r ysgol.

Mae gan yr ysgol raglen sicrhau ansawdd sefydledig. Mae dogfennau buddiol 'Ysgol ar dudalen' ('School on a page') ac 'Adran ar dudalen' ('Department on a page') yn rhoi trosolwg cryno o arfarniad yr ysgol o ddata a rhai agweddau ar ddarpariaeth. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn cynnwys dadansoddiad addas o ddata perfformiad a gwerthusiad gonest o berfformiad mewn dangosyddion allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn cynnwys arfarniad o rai agweddau pwysig, fel perfformiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu rai pynciau sy'n tanberfformio. Defnyddir ystod rhy fach o dystiolaeth i arfarnu safonau mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae arweinwyr yn monitro darpariaeth trwy amrywiaeth o weithgareddau buddiol. Mae ysgolion partner a darparwyr allanol yn cyfrannu'n dda at y craffu hwn. Mae'r ysgol yn gofyn yn rheolaidd am farn disgyblion a rhieni, ac mae'n dechrau defnyddio'r canfyddiadau hyn i ffurfio'i blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff cynnydd mewn gwersi, darpariaeth ac arweinyddiaeth eu harfarnu yn llai cryf na'i hystyriaeth i ddata perfformiad allanol. Yn ychwanegol, mae arfarniad yr ysgol o'i gwaith mewn rhai meysydd pwysig yn rhy hael, er enghraifft wrth arfarnu graddau'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn mewn rhai pynciau, ansawdd yr addysgu, ac yn erbyn lleiafrif o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol yn cyd-fynd yn dda ag anghenion yr ysgol. Mae'r cynlluniau adrannol a bugeiliol i gyd yn rhannu'r un chwe blaenoriaeth allweddol â'r cynllun ysgol gyfan. Caiff adnoddau eu dyrannu'n briodol, er nad yw llinellau atebolrwydd yn ddigon clir ac nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon mesuradwy mewn rhai achosion. O ganlyniad, ni all yr ysgol arfarnu effaith mentrau amrywiol yn glir.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol a buddiol ar gyfer staff.  Mae athrawon yn gwerthfawrogi’n fawr y cyfle i rannu ac arsylwi arfer yn Nhre-gŵyr ac mewn ysgolion eraill, a’r effaith a gaiff hyn ar ddatblygu eu harfer.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n dda.  Mae wedi’i staffio’n briodol i fodloni anghenion y cwricwlwm, a defnyddir athrawon a staff cymorth i gynorthwyo cynnydd disgyblion yn effeithiol.

Caiff cyllid ei gyfeirio’n briodol tuag at flaenoriaethau datblygiadol, a rhoddir ystyriaeth dda i benderfyniadau gwariant.  Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon.  Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid grant.  Fodd bynnag, nid yw mecanweithiau ar gyfer arfarnu effaith gwariant grantiau yn ddigon manwl gywir.

## Ynglŷn â'r ysgol

Ysgol gyfun gymysg 11 i 19 oed cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Abertawe yw Ysgol Tre-gŵyr. Ar hyn o bryd, mae 1,053 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n is nag ydoedd adeg yr arolygiad diwethaf pan oedd 1,212 o ddisgyblion. Mae'r nifer yn y chweched dosbarth yn is hefyd, sef 116 o ddisgyblion o gymharu â 158 o ddisgyblion yn 2011.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Tre-gŵyr ei hun, Waunarlwydd a phentrefi penrhyn Gogledd Gŵyr. Mae tua 12.7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%. Mae ychydig llai na 20% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn wyn, Prydeinig, a daw 7.8% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol. Mae ychydig llai na hanner y disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 4.8% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1% a 2.4% yn y drefn honno. Mae'r ysgol yn darparu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2016. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys un dirprwy bennaeth, a dau bennaeth cynorthwyol.

Mae'r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tre-gŵyr yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,412 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Abertawe yw £6,326 a'r isafswm yw £3,942. Mae Ysgol Tre-gŵyr yn nawfed o'r 14 ysgol uwchradd yn Abertawe o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi digidol' ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion arloesi digidol eraill i ddatblygu ac arbrofi â Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer Cymru.

## Atodiad 1: Tabl cryno o feysydd a arolygwyd

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa barnau bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn a chynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig |
| **Anfoddhaol, angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Atodiad 2: Data perfformiad

**6704063 - Gowerton Comprehensive School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1050 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (10%<PYD<=15%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 195 | 190 | 178 | 170 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.1 | 88.4 | 87.6 | 94.7 | 88.8 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 195 | 190 | 178 | 170 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 90.8 | 93.7 | 94.4 | 97.6 | 91.9 | 89.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 56.4 | 55.8 | 66.9 | 63.5 | 60.8 | 56.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | . | . | . | . | . | 92.0 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | . | . | . | . | . | 57.2 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 195 | 190 | 178 | 170 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 84.1 | 91.6 | 91.6 | 96.5 | 92.5 | 90.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 48.2 | 58.4 | 65.2 | 71.2 | 66.2 | 62.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 195 | 190 | 178 | 170 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 97.4 | 94.7 | 94.4 | 98.2 | 95.9 | 92.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 68.2 | 62.1 | 62.4 | 76.5 | 70.7 | 62.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 1 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

# Adroddiad ar Ysgol Tre-gŵyr
# Mawrth 2017

**6704063 - Gowerton Comprehensive School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1050 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (10%<PYD<=15%) |

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 224 | 222 | 188 | 186 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 67.4 | 64.4 | 71.8 | 78.5 | 65.4 | 60.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 92.9 | 95.5 | 99.5 | 98.9 | 88.9 | 83.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 98.2 | 98.6 | 99.5 | 99.5 | 98.8 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 65.2 | 59.9 | 71.3 | 78.0 | 62.6 | 57.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 373.0 | 366.0 | 378.2 | 381.3 | 357.1 | 344.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 368.5 | 359.7 | 371.2 | 375.6 | 353.5 | 340.3 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 23.2 | 14.4 | 17.0 | 21.5 | 17.0 | 15.8 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 71.9 | 68.5 | 83.0 | 84.4 | 74.9 | 69.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 76.3 | 74.8 | 78.2 | 84.4 | 72.4 | 66.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 87.5 | 84.2 | 97.9 | 93.0 | 85.7 | 82.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 75.1 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 28 | 29 | 29 | 17 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 39.3 | 31.0 | 37.9 | 35.3 | 36.7 | 35.5 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 71.4 | 79.3 | 100.0 | 94.1 | 72.9 | 70.9 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 85.7 | 93.1 | 100.0 | 100.0 | 95.5 | 92.1 |
| **Wedi cyflawni’r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 39.3 | 27.6 | 37.9 | 35.3 | 33.5 | 32.7 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio fesul disgybl** | 326.8 | 325.4 | 371.0 | 362.5 | 321.4 | 311.1 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio a mwy fesul disgybl** | 323.4 | 317.0 | 357.9 | 347.3 | 316.2 | 305.2 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 25.0 | 0.0 | 13.8 | 0.0 | 5.9 | 4.5 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 46.4 | 31.0 | 51.7 | 52.9 | 49.3 | 47.1 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 53.6 | 55.2 | 51.7 | 47.1 | 44.8 | 43.6 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 71.4 | 69.0 | 96.6 | 58.8 | 70.1 | 71.7 |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 50.9 |

Mae’n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.
Mae’n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau’r flwyddyn academaidd.
Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio’r 8 canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.
Yn achos disgyblion sy’n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw’r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Adroddiad ar Ysgol Tre-gŵyr
Mawrth 2017

**6704063 - Gowerton Comprehensive School**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth 139

**Cyfnod allweddol 5**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion 17 oed** | 62 | 79 | 73 | 62 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl** | 853.9 | 686.9 | 831.9 | 841.6 | 816.8 | 824.9 |
| **Nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch:** | 57 | 67 | 70 | 61 | | |
| **O'r rheiny a gofnododd swm sydd gyfwerth â 2 gymhwyster Safon Uwch:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 3** | 98.2 | 98.5 | 95.7 | 100.0 | 98.4 | 98.0 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 5.3 | 7.5 | 4.3 | 6.6 | 5.5 | 6.6 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 73.7 | 71.6 | 85.7 | 78.7 | 69.9 | 70.9 |

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.
Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
Mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.
Mae trothwy lefel 3 wedi'i seilio ar nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/05/2017**